# Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**2013 dccc 3**

## RHAN 2

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU A'I PHERTHYNAS Â'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL

## PENNOD 2

Y BERTHYNAS RHWNG YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SAC

*Darparu gwasanaethau*

### 19 Darparu gwasanaethau

(1) Caniateir i drefniadau gael eu gwneud rhwng SAC ac awdurdod perthnasol ar gyfer y canlynol—

(a) bod unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod i gael ei harfer neu eu harfer gan SAC neu gan gyflogai i SAC;

(b) bod unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod i gael ei harfer neu eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol;

(c) bod gwasanaethau technegol, proffesiynol neu weinyddol yn cael eu darparu—

(i) gan SAC i'r awdurdod, neu at ddibenion yr awdurdod,

(ii) gan yr awdurdod neu ar ei ran, i SAC, neu

(iii) gan yr awdurdod neu ar ei ran i'r Archwilydd Cyffredinol;

(d) bod gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol yn cael eu darparu gan yr Archwilydd Cyffredinol i'r awdurdod neu at ddibenion yr awdurdod.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Darparu gwasanaethau. (See end of Document for details)*

(2) Ond rhaid i SAC ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol cyn ymrwymo i drefniadau o'r math a grybwyllir yn is-adran (1)(b), (c)(iii) neu (d).

(3) Nid yw unrhyw drefniadau o dan is-adran (1)(a) neu (b) ar gyfer arfer swyddogaeth awdurdod perthnasol yn effeithio ar gyfrifoldeb yr awdurdod perthnasol am y swyddogaeth honno.

(4) Os bodlonir yr amod yn is-adran (5), caiff SAC ac awdurdod perthnasol, archwilydd cymwysedig neu gorff cyfrifyddu wneud y canlynol—

(a) trefniadau i gydweithredu â'i gilydd a rhoi cymorth i'w gilydd, neu

(b) trefniadau i'r awdurdod, yr archwilydd neu'r corff a'r Archwilydd Cyffredinol gydweithredu â'i gilydd a rhoi cymorth i'w gilydd.

(5) Dyma'r amod—

(a) bod SAC yn ystyried y byddai gwneud hynny yn hwyluso arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu SAC, neu y byddai'n ffafriol i'w harfer, a

(b) bod yr awdurdod perthnasol, yr archwilydd cymwysedig neu'r corff cyfrifyddu dan sylw yn ystyried y byddai gwneud hynny yn hwyluso arfer swyddogaethau'r awdurdod, y person neu'r corff hwnnw, neu y byddai'n ffafriol i'w harfer.

(6) Ond rhaid i SAC ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol cyn ymrwymo i drefniadau o'r math a grybwyllir yn is-adran (4)(b).

(7) Caiff SAC wneud trefniadau o dan yr adran hon ar y telerau, gan gynnwys telerau ynghylch tâl, sy'n briodol ym marn SAC.

(8) Ond rhaid i amodau ynghylch tâl i SAC gael eu gwneud yn unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd a baratoir o dan adran 24.

(9) Yn yr adran hon—

ystyr "corff cyfrifyddu" yw corff sydd—

(a) yn gorff goruchwylio cydnabyddedig at ddibenion Rhan 42 o Ddeddf Cwmnïau 2006, neu

(b) yn gorff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy;

ystyr "archwilydd cymwysedig" yw person sydd—

(a) yn gymwys i gael ei benodi yn archwilydd statudol o dan Ran 42 o Ddeddf Cwmnïau 2006, neu

(b) yn aelod o gorff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy;

ystyr "corff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy" yw corff o gyfrifwyr sydd—

(a) yn sefydledig yn y Deyrnas Unedig neu Wladwriaeth AEE arall, a

(b) am y tro wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn;

ystyr "awdurdod perthnasol" yw unrhyw un o Weinidogion y Goron neu adran o'r llywodraeth, unrhyw awdurdod cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw awdurdod lleol) neu ddeiliad unrhyw swydd gyhoeddus.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Darparu gwasanaethau. (See end of Document for details)*

**I2** A. 19 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Darparu gwasanaethau.